

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

1. Dechrau

1.2 Cynnwys y gymuned



Mae cynnwys y gymuned yn eich prosiect neu fudiad fel arfer yn agwedd eithaf pwysig yn enwedig os yw'r mudiad yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned i lwyddo. Mae yna sawl ffordd o gynnwys y gymuned:

Gwerthusiadau cymuned

Mae gwerthusiadau'r gymuned yn dechneg sy'n galluogi pobl lleol i ymgymryd ag arolwg manwl i gymryd stoc o fywyd cymunedol. Calon y gwerthusiad yw holiadur a ddosberthir i bob tŷ yn y gymuned, neu sampl o'r boblogaeth. Fodd bynnag, nid arolwg holiadur yn unig yw gwerthusiad, ond dylid edrych arno fel proses ehangach sy'n aml yn cynnwys dulliau eraill, megis fforymau a gweithdai.

Trafodaethau grŵp bach

Mae trafodaethau grŵp bach yn ymwneud ag ystod o ddulliau tebyg, y cyfan yn seiliedig ar bobl yn cydweithio mewn grwpiau bychain. Mae'r math yma o ddull yn tanlinellu cydweithiadau rhwng pobl a chyfnewid gwybodaeth, arolygon a barnau. Mae gweithdai a grwpiau ffocws yn enghreifftiau cyfarwydd.

Gweledigaethu'r gymuned

Mae gweledigaethu'r gymuned yn broses sy'n seiliedig ar ddatblygiad 'gweledigaeth' y dyfodol ar gyfer y gymuned. Mabwysiadwyd y dull yma gan nifer o awdurdodau lleol yn y DU fel rhan o'u proses Agenda Lleol 21. Mae gweledigaethu yn ceisio cynnwys pob agwedd o gymuned, ac yn rhoi ffocws i dir cyffredin ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

Gellir defnyddio amrywiaeth o dechnegau o fewn y broses gweledigaethu, gan gynnwys Ymchwiliad Dyfodol, grwpiau ffocws a gweithdai.

Ymchwiliad Dyfodol

Mae techneg Ymchwiliad Dyfodol yn ffurfio rhan allweddol o ddull gweledigaethu'r gymuned a ddisgrifiwyd uchod. Mae'n seiliedig ar ddigwyddiad grŵp mawr, cynhadledd fel arfer, gyda'r pwrpas o greu gweledigaeth gyfrannol ar gyfer cymuned gydag amcanion cyffredin, a datblygu gweithrediadau i gyflawni'r amcanion yma. Mae'r dechneg yn bwriadu cynnwys pob diddordeb mewn cymuned mewn ffordd sy'n edrych ar bob cyfranogwr fel unigolyn a ble gellir hunan-reoli'r digwyddiad gan bawb.

Technoleg man agored

Mae technoleg man agored yn addasiad o'r dull cyfarfod cyhoeddus 'traddodiadol' ar gyfer cyfranogi cymunedol, sy'n rhannu rhai cyffelybiaethau gyda digwyddiadau Ymchwiliad dyfodol.

Mae cyfarfodydd man agored yn ceisio cynnwys yr holl bobl sy'n bwysig yn y gymuned, yn y mudiad a rheolaeth y digwyddiad a'r materion a ystyrir. Mae'r broses yn hyblyg ac yn 'agored' heb agenda sefydlog, ychydig strwythur ffurfiol a dim 'arbenigwyr', a gwneir llawer o'r gwaith gan grwpiau bychain yn seiliedig ar bynciau.

Penwythnosau cynllunio cymunedol

Mae penwythnosau cynllunio cymunedol yn ddigwyddiadau mawr sy'n edrych ar faterion cynllunio cymunedol.

Ymgynullir a threfnir y penwythnosau gan bobl broffesiynol ac awdurdodau statudol i geisio cynnwys pobl leol i ffurfio cynlluniau ar gyfer datblygiad eu cymunedau.

Fforymau

Mae fforymau yn gyfarfodydd ardal reolaidd a pharhaus o gynrychiolwyr o wahanol grwpiau a mudiadau, ynghyd ag unigolion sy'n dangos diddordeb, sy'n dod at ei gilydd fel arfer i drafod mater neu gonsyrn arbennig, megis yr amgylchfyd. Sefydlwyd fforymau yn eang drwy'r DU gan awdurdodau lleol i gyfeirio at ddatblygiad a gweithrediad Agenda Lleol 21. Cydnabyddir fforymau fel techneg addas ar gyfer cynnwys grwpiau a waharddwyd o'r broses gwneud penderfyniadau, megis lleiafrifoedd ethnig a phobl ifainc.

Y ford gron/adeiladau consensws

Mae'r ford gron yn ddyfais ar gyfer adeiladu consensws rhwng grwpiau a oedd gynt efallai yn elyniaethus. Fel arfer maent yn cynnwys rhwng 16 a 24 aelod, ac yn manylu ar faterion cynaliadwy: mae amgylchfydwyr a diwydianwyr, gweithwyr awdurdodau lleol ac aelodau'r cyhoedd wedi cwrdd ar sail gyfartal i adeiladu consensws drwy roi'r gorau i ddull gwrthwynebol a cheisio deall barn pobl eraill.

Rheithgorau dinasyddion

Mae rheithgorau dinasyddion yn cynnwys rhwng 12 a 25 aelod, yn cynrychioli trawstoriad o'r gymuned, ac yn cwrdd am 4 diwrnod (fel arfer). Rhoddir iddynt gymaint o wybodaeth â phosib am unrhyw fater, clywir tystiolaeth, croesholir tystion, trafodir y mater ymysg ei gilydd a gyda thystion, a hwylusir gan safonwyr. Cyhoeddir eu casgliadau mewn adroddiad, sy'n gosod allan yr anghytundebau yn ogystal â'r cytundebau.

Cynllunio ar gyfer Real®

Mae Cynllunio ar gyfer Real® yn dechneg sy'n defnyddio model 3D i alluogi pobl i roi cynigion gerbron ar gyfer gwella'u cymunedau. Rhoddir cardiau sy'n cynrychioli defnyddiau, problemau neu faterion eraill ar y model. Mae consensws yn ymddangos drwy batrymau dosbarthu'r cardiau opsiwn.

Datganiadau cynllun pentref

Mae'r Comisiwn Cefn Gwlad wedi dyfeisio proses sydd â'i ben draw mewn datganiad cynllun pentref er mwyn dylanwadu ar weithrediad y system cynllunio statudol. Mae pobl leol yn adnabod gwahaniaeth ac amrywiaeth eu hardal mewn datganiad o'r fath.

Y bwriad yw cymryd y datganiadau cynllun pentref fel cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol fel yr ymglymerir â datblygiadau a newidiadau'r dyfodol yn gydymdeimladol.

Mapiau'r plwyf

Cynlluniwyd y cynllun mapiau'r plwyf gan Dir Cyffredin: y bwriad yw dathlu arwahanrwydd lleol a helpu pobl i ddod at ei gilydd i nodi beth sy'n werthfawr iddynt yn lleol.

Map Gwyrdd

Mae'r System Map Gwyrdd (GMS) yn fframwaith ar gyfer cynllunio mapiau amgylchfydol a ellir ei addasu'n lleol ac a rennir yn fydol. Mae'n gwahodd timau cynllunio o bob oedran a chefnidir i nodi'r cysylltiadau rhwng amgylchfydoedd naturiol a dynol drwy fapio'r gymuned drefol a gwledig lleol. Gan ddefnyddio iaith weledol GMS a set o eiconau a gynlluniwyd ar y cyd o wahanol safleoedd gwyrdd ac adnoddau diwylliannol, mae gwneuthurwyr mapiau yn cynhyrchu delweddau unigryw a lleol

sy'n gwireddu anghenion lleol, ond eto sy'n gysylltiedig fydol.

Gwybodaeth bellach:

Cyfranogaeth Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

www.participationcymru.org.uk

Datblygu Cymunedol Cymru

www.cdc.cymru.org

Interact Networks

www.interactnetworks.co.uk

Green Map

www.greenmap.com

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422

info@pavs.org.uk

Ffacs: 01437 769431

www.pavs.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 03/11/2008



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk